Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 15 Mawrth 2022 am 10:00am (Cyfarfod drwy Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, APCAP (Cadeirydd) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (Is-Gadeirydd) (o 11am) |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, CSP |
| Anna Bird | Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol, BIP Hywel Dda |
| Andrea Winterton | Rheolwr Gwasanaeth Morol, Gweithrediadau, CNC |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Mydrian Harries | Pennaeth Corfforaethol Atal a Gwarchod, GTACGC |
| Y Cyngh. Elwyn Williams | Is-Gadeirydd Awdurdod Tân CGC |
| Jo McCarthy | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, BIPHDd |
| Maria Battle | Cadeirydd, BIPHDd |
| Anna Malloy | Porthladd Aberdaugleddau |
| Alyson Phillips | Rheolwr Partneriaethau, Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| Philip Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, BIP Hywel Dda |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Heddlu Dyfed Powys |
| Dr Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Y Cyngh. David Simpson | Arweinydd, Cyngor Sir Penfro |
| Rebecca Evans | Prifathro Swyddog Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Mari Arthur | Yn Cynrychioli Cynnal Cymru |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Carys Huntly | Cydlynydd yr Asesiad Llesiant Rhanbarthol |
| Jemma Rees | Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub CGC |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Y Cyngh. Cris Tomos | Cyngor Sir Penfro |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog, PLANED |
| Yr UA Anthony Evans | Heddlu Dyfed Powys |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Gyflawni Leol Dyfed Powys, GPaChEM |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr Sirol, Sir Benfro, BIPHDd |
| Jonathan Griffiths | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro |
| Kelvin Barlow | Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Ranbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:05am.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Fe wnaeth TJ groesawu'r BGC ac fe restrwyd ymddiheuriadau gan yr uchod.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Log Gweithredu

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022 yn gywir.

Log Gweithredu

Roedd diweddariadau ar gamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf fel a ganlyn;

Cam Gweithredu 1 – Dywedodd NE nad oedd unrhyw gymorth allanol ar gael ond roedd CG wedi cynnig cydlynu gyda BGCau eraill a oedd wedi gwneud gwaith tebyg ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Cam Gweithredu 2 – Cadarnhaodd CG fod y cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol wedi cael ei ddyfarnu i'r rhai sy'n gadael gofal ledled Cymru ac nid i leoliadau daearyddol penodol. Ni ddisgwylir unrhyw waith pellach ar hyn o bryd.

Mae Cam Gweithredu 3 wedi'i gwblhau

Cam Gweithredu 4 – Fe wnaeth JR atgoffa'r holl bartneriaid i enwebu cynrychiolydd ar gyfer y gwaith Tlodi yn Sir Benfro ac roedd diweddariad ar yr agenda.

Mae Cam Gweithredu 5 wedi'i gwblhau

Cam Gweithredu 6 – Bu LR yn y cyfarfod cyntaf gyda Cydgynhyrchu Cymru ar 14/03/22 a byddai'r manylion yn cael eu cylchredeg unwaith y byddent ar gael.

## 3. Asesiad Llesiant ar gyfer Sir Benfro – cymeradwyaeth a'r camau nesaf (Nick Evans)

Dywedodd NE fod y drafft wedi cael ei gylchredeg ar gyfer adborth yn y BGC diwethaf a bod y drafft terfynol gerbron y pwyllgor hwn i geisio cymeradwyaeth. Roedd y ddogfen lawn wedi'i hatodi wrth becyn yr agenda ac o fewn y ddogfen roedd y newidiadau wedi cael eu hychwanegu mewn coch a llinell wedi cael ei rhoi drwy'r holl destun sydd i'w ddileu. Roedd yr holl sylwadau a ddaeth i law wedi cael eu hystyried, gyda'r ymatebion wedi'u nodi mewn nifer o atodiadau:

- Mae Atodiad A yn cynnwys ymatebion trwy'r ffurflen ymateb neu e-bost
- Mae Atodiad B yn cynnwys yr ymatebion a gafwyd trwy Engagement HQ
- Mae Atodiad C a D yn cynnwys yr adborth gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a oedd yn gadarnhaol ar y cyfan.

Roedd yr adborth gan y panel partneriaethau wedi'i nodi yn yr adroddiad eglurhaol. Cafodd cyfarfod rhwng y partneriaid statudol ei gynnal ychydig wythnosau yn ôl i gytuno ar y drafft terfynol.

Disgwylid y byddai'r asesiad yn cael ei gyhoeddi ar 15/03/22 pe bai'n cael ei gymeradwyo ond ni fyddai cyhoeddusrwydd ffurfiol yn cael ei roi iddo tan ar ôl y cyfnod cyn yr etholiadau.

Darparodd NE ddiweddariad ar y system Gorwel/Horizon a ddylai fod wedi cael ei rhyddhau i'w defnyddio yn yr asesiad ond nad oedd ar gael. Mae'r system bellach yn cael ei phrofi ac i fod i gael ei rhyddhau yn y misoedd nesaf; bydd gweithdy'n cael ei drefnu ar gyfer partneriaid maes o law.

Fe wnaeth NE amlinellu'r camau nesaf yn y broses ar ôl cwblhau'r asesiad, sef sut i gyflawni'r camau gweithredu yn y meysydd a nodir, a fydd yn rhan o'r Cynllun Llesiant. Bydd gwaith llunio gweledigaeth yn cael ei wneud i greu fframwaith. Roedd llinell amser wedi'i chynnwys yn y nodyn eglurhaol ym mhecyn yr agenda i amlinellu'r gwaith, gan ddisgwyl y byddai'n dechrau yn yr haf/hydref.

Oherwydd yr oedi a achosir gan y cyfnod cyn yr etholiadau, awgrymwyd fod cyfarfod y BGC ym mis Mai'n cael ei ohirio tan fis Mehefin gan y bydd cyfarfod cyntaf y Cyngor i ethol arweinydd a dyrannu rolau'n cael ei gynnal ar 27 Mai.

Cymerodd TJ y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n rhan o lunio'r asesiad a gwahoddodd drafodaeth a sylwadau.

Dywedodd AB fod yr asesiad yn cael ei gyflwyno'n wahanol i'r BGCau eraill yn y rhanbarth ond ei fod yn darllen yn dda a bod y dull integredig wedi cael derbyniad cadarnhaol. Gofynnodd AB am gael cwrdd â NE i drafod darnau bychain, penodol o adborth. Nodwyd fod BGCau eraill wedi llunio proffiliau cymunedol ar gyfer eu hasesiadau a gofynnwyd a oedd hyn yn cael ei ystyried yn Sir Benfro i roi cymorth i gyflawni'r cynllun llesiant. Atebodd NE mai'r bwriad oedd llunio'r proffiliau hyn ond nad oedd hyn wedi cael ei gyflawni oherwydd y ffrâm amser, er bod cynlluniau o hyd i ddatblygu'r proffiliau yn y misoedd nesaf ac y teimlir bod angen i'r Cynllun Llesiant fynd o dan lefel y sir.

Fe wnaeth SPJ sylw nad oedd peth wmbredd o adborth gan y gymuned a'r trydydd sector ond bod yr adborth gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys adborth mewn dau faes. Yn gyntaf, yn yr adran am yr economi, awgrymwyd y dylid cyfeirio at allbwn posibl prosiectau ynni adnewyddadwy yn yr adran grynhoi oherwydd arwyddocâd hynny, ac yn ail awgrymwyd y gallai'r defnydd o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol fod yn rhy fanwl gan bod hyn yn rhannu'r prif drefi'n adran lai, a allai fod yn broblem at ddibenion cynllunio. Nododd SPJ fod y llinell amser yn gymhleth ac yn faith o ran sut y caiff ei rhagnodi ac awgrymodd y gallai fod yn gyfle i hyrwyddo'r gwaith gan y byddai llawer o ddiddordeb mewn cynllun ar gyfer Sir Benfro.

Mewn ymateb, dywedodd TJ y ceir y datganiad ynglŷn â "chynhyrchu pŵer" ar dudalen 26 ac fe ychwanegodd NE fod tudalennau 79-81 yn cynnwys manylion prosiectau yn yr hafan ond y gellid rhoi'r prif negeseuon yn y crynodeb ac y byddai'n trafod gyda SPJ. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad a'r arolwg cyhoeddus wedi bod yn wael ond roedd BGCau eraill wedi dod ar draws materion tebyg ond roedd y 3ydd sector wedi ymwneud yn helaeth â llunio'r ddogfen. O ran hyrwyddo'r asesiad, bydd angen i aelodau tîm Cyfathrebu CSP gael eu cynnwys a gallai fod angen ffurfio is-grŵp ar gyfer y gwaith hwn. Pwysleisiodd NE fod gan bawb yn y BGC rôl i ledaenu'r wybodaeth i'w priod gyrff.

Dywedodd PK, o fewn y matrics yn y crynodeb gweithredol, fod nifer fawr o faterion oren ac fe awgrymodd, trwy ymdrin â'r materion gwyrdd, melyn ac oren, y gallai hynny ddatrys y materion coch hefyd. Mae BIPHDd wrthi ar hyn o bryd yn rhedeg prosiect mewn presgripsiynu cymdeithasol a meintioli gwerth cymdeithasol ac felly awgrymodd gynnal cyfarfod gyda chydweithwyr i rannu data a helpu i drefnu gwaith a blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant. Roedd PK yn cytuno y gallai hwn fod yr amser delfrydol i ymgysylltu â'r gymuned i rannu amcanion ar gyfer dwyn i gyfrif. Byddai gan BIPHDd ddiddordeb yn y gwersi ar draws y tri BGC wrth i'r

amcanion gael eu llunio. Fe ymatebodd NE gan ddweud bod adnabod y meysydd blaenoriaeth yn rhan allweddol o'r camau nesaf ac na fyddai'n bosibl ymdrin â phob maes felly mai'r sgwrs fydd beth ddylid ymdrin ag ef a allai fod yn faes eang sy'n mynd i'r afael â mwy nag un flaenoriaeth. Mae angen bod â disgwyliad realistig o ran beth all y BGC ei wneud, megis y camau gweithredu trawsbynciol. Mae'r tri BGC yn cwrdd yn fisol â'r BPRh i rannu gwybodaeth a datblygu dull cyffredin ar gyfer y rhanbarth.

Roedd MH yn fodlon ar yr agwedd ar yr asesiad sy'n ymwneud â thân ond dywedodd fod rhai delweddau a graffiau'n aneglur ac y gallai fod angen ailfformatio'r rhain.

Gwahoddwyd y BGC i bleidleisio ar gymeradwyo'r asesiad, a gymeradwywyd, heb unrhyw bleidleisiau i beidio â chymeradwyo a heb i unrhyw un ymatal rhag pleidleisio.

<u>Camau Nesaf</u>

Dywedodd TJ fod y BGC wedi rhedeg gweithdai'n flaenorol a fu'n llwyddiannus iawn ar gyfer datblygu'r Cynllun Llesiant ac awgrymodd fod y rhain yn cael eu cynnal eto. Dywedodd NE y byddai gweledigaeth Sir Benfro 2040 yn cael ei chysylltu â'r Cynllun Llesiant felly y byddai gweithdai ar y cyd yn cael eu cynnal i gadarnhau'r meysydd ar gyfer themâu penodol. Bydd rhwydwaith y trydydd sector ac ymgysylltu'n cael ei ddefnyddio i fwydo o'r gwaelod i fyny. Dywedodd AW ei bod yn croesawu'r dull gweithdai ac awgrymodd ddefnyddio unrhyw weithdai presennol i atal dyblygu ac ystyried unrhyw grwpiau eraill y gall fod arnynt eisiau cael eu cynnwys.
Dywedodd TJ fod pedwar maes amlwg o ran gwaith sy'n fyw ar hyn o bryd: newid hinsawdd. Sir Benfro 2040, tlodi plant a phrosiect presgripsiynu cymdeithasol BIPHDd, y gall y Cynllun Llesiant eu dwyn ynghyd.
Ychwanegodd SL fod nifer o feysydd y gellid mynd i'r afael â hwy'n rhanbarthol, y gall Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru roi cymorth i'w wneud. Mae'r BPRh wedi datblygu fframwaith rhanbarthol hefyd.

**4. Cefnogaeth i gael cydnabyddiaeth swyddogol i Ganolbarth a Gorllewin Cymru fel rhanbarth Cyflog Byw (Mari Arthur ar ran Dafydd Llewellyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys)**

Ar ddiwedd y llynedd, cafodd HDP ei achredu fel cyflogwr cyflog byw ac mae grŵp llywio wedi cael ei greu i sefydlu canolbarth a gorllewin Cymru fel y rhanbarth cyflog byw cyntaf. Estynnodd AP wahoddiad i holl aelodau'r BGC oedd â diddordeb i ymuno â'r grŵp ac roedd yn gobeithio cynnwys y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rhoddodd MA, sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Phrif Weinidog Cymru i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i baratoi cynllun, gyflwyniad i'r BGC a dywedodd fod 11 o gyflogwyr cyflog byw achrededig yn Sir Benfro ar hyn o bryd.

Roedd MB yn cefnogi'r mudiad hwn, yn enwedig gyda chwyddiant a chostau byw ar gynnydd a bod y ddyletswydd yn ymestyn y tu hwnt i ddarparu'r cyflog byw yn unig. Mae'r elfen contractwyr yn fwy cymhleth ond roedd yn blês gyda'r cymorth a oedd ar gael i fynd i'r afael â hyn. Ategodd MA fod cymorth ar gael i bawb, gan gynnwys nifer o becynnau cymorth, a bod hyrwyddwyr yn cael eu ceisio o sefydliadau i gynorthwyo gyda'r gwaith. Mae oriau cyflog byw yn cael sylw yn yr agenda gwaith teg hefyd.

Gofynnodd SL a yw'r achrediad ar agor i bob sector a sefydliadau o bob maint ac fe ymatebodd MA gan ddweud ei fod a bod Cynnal yn gobeithio sicrhau'r cymysgedd llawn o sefydliadau. Dywedodd SL y dylai'r math yma o bwnc gael ei gynnwys o fewn amodau grantiau ac fe ychwanegodd MA fod y loteri genedlaethol yn ariannwr achrededig.

Dywedodd MH fod y BGC yn llwyfan da iawn ar gyfer y pwnc yma a gofynnodd beth sy'n digwydd os nad yw contractwr yn cydymffurfio ar ôl dyfarnu contract. Fe ymatebodd MA gan ddweud nad oedd cam gweithredu i'w gymryd ar unwaith ond bod hyn yn rhywbeth i'w gynnwys yn y cerrig milltir ac fel rhan o'r broses o ailnegodi'r tendr.

Gofynnodd SL pa mor aml y mae'r cyflog byw'n cael ei adolygu a dywedodd MA fod hynny'n digwydd yn flynyddol, gan gael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd ar ôl dadansoddiad yn yr haf, a bod gan sefydliadau 6 mis i'w roi ar waith. Fe ychwanegodd TJ fod APCAP eisoes wedi bod yn talu'r cyflog byw gwirioneddol ond nad yw wedi cael ei achredu oherwydd ofn y byddai'r graddfeydd cyflog isaf yn culhau. Nid oedd MA wedi profi llawer o'r materion hyn gan bod cyflogeion yn tueddu i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy.

Rhannodd MA ei chyfeiriad e-bost a byddai JR yn cylchredeg y cyflwyniad.

**5. Diweddariad ar Dlodi yn Sir Benfro**

Roedd diweddariad ysgrifenedig wedi cael ei gylchredeg ddoe ar ôl cyfarfod cyntaf y swyddogion gyda DM yn arwain y prosiect. Gofynnwyd i'r holl aelodau enwebu cynrychiolydd i ymuno â'r gweithgor ar gyfer y prosiect cyn gynted â phosibl.

Roedd SL yn cwrdd â James White i drafod pwnc y gwaith yma. Roedd cyllid wedi cael ei sicrhau o'r gronfa adfywio cymunedol i siarad gyda phobl sy'n profi caledi ariannol, i froceru sgyrsiau am brofiad personol ac i ganfod bylchau yn y cymorth. Rhaid gwario'r cyllid erbyn mis Mehefin ac awgrymwyd ailymweld â'r gwaith a wnaed gan PACTO, megis trafnidiaeth gymunedol a'r fenter rhannu lifftiau.

Dywedodd PK ei fod yn teimlo y dylai aelodau'r BGC gael eu cynnwys yn y gweithgor ar adeg gynharach gan y byddai llawer o sefydliadau eisoes yn gwneud gwaith ar fynd i'r afael â thlodi. Dywedodd MB fod BIPHDd yn casglu profiadau personol pobl a oedd yn profi tlodi mewn gwaith. Byddai JR yn adrodd yn ôl wrth DM, JW ac NE.

**6. Diweddariad ar Grŵp Newid Hinsawdd y BGC (Andrea Winterton)**

Rhoddodd AW wybod i'r BGC fod y cyfarfod a oedd i fod i ddigwydd cyn y cyfarfod hwn wedi cael ei ganslo ond y byddai'r cyfarfod nesaf yn mynd yn ei flaen. Yn y cyfarfod diwethaf, roedd y Cylch Gorchwyl wedi cael ei gymeradwyo a'r ddau weithdy cyntaf wedi cael eu cynnal gyda'r trydydd yn cael ei gynnal yn ddiweddarach y mis hwn, ynghyd â'r cymorthfeydd manwl. Ar ddiwedd y prosiect, sydd i fod i orffen ym mis Mehefin, byddai gofyn i'r BGC gymeradwyo'r strategaeth, felly byddai'r newid dyddiad posibl ar gyfer y BGC nesaf yn gyfleus.

Trafodwyd yr hyfforddiant llythrennedd carbon a ddatblygwyd gan CNC a BGC Gwent, gan ystyried a ellid diwygio'r pecyn cymorth ar gyfer Sir Benfro ac roedd trafodaeth yn mynd rhagddi ar hyn o bryd gyda BIPHDd a CSP. Bu ymholiad a oedd yn gofyn a ellid defnyddio'r hyfforddiant ar gyfer busnesau bychain ac roedd yn ymddangos bod hynny'n bosibl gyda rhai mân newidiadau. Mae trafodaethau ynghylch fframweithiau caffael a lleihau carbon yn rhan o'r gwaith carboniadur. Fe ychwanegodd TJ fod cyfarfod agored gan Lywodraeth Cymru wedi'i amserlennu ar gyfer 16.03.22 ar gyfer yr adolygiad blynyddol o'r carboniadur felly gallai fod datblygiadau pellach ac fe anogodd yr holl aelodau i fynychu gweithdai'r Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd.

Dywedodd PK ei bod yn ymddangos fel pe bai llawer o hyfforddiant llythrennedd carbon yn digwydd yng Nghymru felly yr hoffai arweiniad ar fapio carbon mewn lleoliad gofal iechyd, gan bod llawer i ymchwilio iddo nad yw mewn lleoliad caffael. Dywedodd AW nad yw'r math yma o hyfforddiant ar gael ar hyn o bryd ond y gallai'r datblygiad hwn fod yn rhan o ddull graddol a'i fod yn gysyniad diddorol.

## 7. UFA

Rhoddodd SL wybod i'r BGC fod dogfen werthuso fanwl wedi cael ei llunio ar Gronfa Gymunedol Sir Benfro sydd yn yr arfaeth ac mai'r canlyniad oedd y byddai'n ddilys ac yn ddarn sydd wedi bod ar goll o'r jig-so ar gyfer camau atal cymunedol a dulliau seiliedig ar le. Mae cyllid ar gael o gronfa adfywio cymunedol y DU i gyflogi swyddog i hwyluso'r broses o gychwyn y gronfa.

Gofynnodd CG a oedd argyfwng dyngarol Wcráin yn rhywbeth i'w drafod fel BGC ynteu ar lefel sefydliadau unigol. Dywedodd SL fod y grŵp cydlynu cymunedol wedi cwrdd a'i bod yn debygol y bydd teuluoedd a fydd yn rhoi llety i ffoaduriaid. Byddai angen cryfhau'r grwpiau Croeso a ddefnyddiwyd ar gyfer ffoaduriaid o Syria a defnyddio'r sgiliau yn y gymuned. Cafwyd sawl cynnig o gymorth a chefnogaeth gan y rhwydweithiau cymunedol. Fe ychwanegodd MB fod Llywodraeth Cymru wedi galw ar BIPHDd ar gyfer cyfarfod yn y prynhawn ac y gallai rhai Wcreiniaid gael eu lletya yng ngwersyll Llangrannog ond y byddai arnynt angen gofal bugeiliol a dynol pellach ac awgrymodd y gellid defnyddio grŵp Croeso Ceredigion.

Gofynnodd AP a oedd y rhai a oedd wedi cynnig bod yn rhan o fenter profiad gwaith y BGC yn 2020 yn dal i fod â diddordeb yn y gwaith hwn i'w ddefnyddio i roi cymorth i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am beth amser. Dywedodd TJ y byddai AP yn cysylltu'n uniongyrchol â'r tri sefydliad a fu'n gysylltiedig.

Dymunodd TJ bob lwc i bawb a oedd yn rhan o'r etholiadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:50am.